YMCHWIL, DOGFENNU

# Gwerthusiad o’r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren (crynodeb)

Nod y cynllun oedd defnyddio buddsoddiad wedi'i dargedu i roi cyfleoedd i fusnesau pren dyfu i wella cyflwr coetiroedd yng Nghymru, ac I ddod â choetiroedd anhygyrch o dan reolaeth.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 31 Hydref 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 31 Hydref 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-cynllun-buddsoddi-mewn-busnesau-pren-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Cyflwyniad

Methodoleg

Mynd i'r afael â chwestiynau allweddol y gwerthusiad

Casgliadau ac argymhellion

Manylion cyswllt



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-cynllun-buddsoddi-mewn-busnesau-pren-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cyflwyniad

Roedd y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren (2014 i 2020) (CBBP) yn gynllun grant cyfalaf £9m sydd ar gael i berchenogion meithrinfeydd coed a choedwigoedd preifat, awdurdodau lleol, neu berchenogion coedwigoedd sector cyhoeddus eraill a mentrau bach a chanolig (BBaCh) oedd yn gweithio mewn gweithgareddau plannu a rheoli coedwigoedd, cynaeafu coed a/neu brosesu coed. Ariannwyd y cynllun drwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig (RhDG) 2014 i 2020 a gweithredwyd y cynllun o gychwyn 2016 hyd at Fehefin 2023.

Y rhesymeg tu ôl i'r cynllun oedd i ddefnyddio buddsoddiad wedi ei dargedu i roi cyfleoedd i fusnesau pren dyfu, i wella cyflwr coetiroedd yng Nghymru, ac i ddod â choetiroedd anhygyrch o dan reolaeth. Roedd cyfran fawr o'r coetiroedd yng Nghymru heb eu rheoli, neu heb eu rheoli'n ddigonol, a hynny'n aml oherwydd y ffaith nad oeddent yn hygyrch, ac felly roedd angen cael gwahanol fathau o beiriannau ar gyfer cynhyrchu cynaliadwy.

Prif nod y gwerthusiad oedd darparu asesiad annibynnol o weithrediad ac effaith y cynllun yng Nghymru. Bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i fod yn sail dystiolaeth i hysbysu penderfyniadau yn y dyfodol yn ymwneud â buddsoddiadau sy'n cefnogi'r diwydiant pren yng Nghymru. Aseiniwyd wyth cwestiwn gwerthuso ar gyfer yr astudiaeth hon, fel a ganlyn.

1. Pa mor effeithiol weithredwyd y broses Datganiad o Ddiddordeb (DoDd), ymgeisio a gwerthuso?
2. Beth oedd y lefel o ymgysylltiad â buddiolwyr ac ymgeiswyr posibl? Pa mor effeithiol oedd y prosesau hyn?
3. Pa mor effeithiol gafodd y cynllun ei ddylunio, ei weinyddu a'i gydlynu, yn cynnwys y broses ymgeisio, y systemau monitro, y cyfathrebu ac argaeledd cymorth ar ôl y dyfarniad?
4. I ba raddau y llwyddodd CBBP i gyflawni'r targedau a osodwyd ar gyfer y cynllun?

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-cynllun-buddsoddi-mewn-busnesau-pren-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

5. Beth oedd effaith gyffredinol y CBBP (gydag ystyriaeth arbennig i unrhyw effeithiau economaidd ac amgylcheddol y cynllun)?
6. Sut werth am arian a gafwyd yn gyffredinol gan y cynllun?
7. I ba raddau yr oedd y cynllun yn alinio â gwasanaethau cymorth eraill ac amcanion strategol Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd (UE)?
8. Pa wersi a ddysgwyd a pha argymhellion ar gyfer y cynllun cyfredol ellir eu darparu o asesiad a gwerthusiad y CBBP?

## Methodoleg

Defnyddiwyd dulliau ymchwil cymysg ar gyfer y gwerthusiad terfynol, gan ddefnyddio data ansoddol a meintiol. Cafodd y gwerthusiad ei seilio ar y gweithredoedd ymchwil canlynol:

- Dwy rownd o gyfweliadau manwl gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid.
- Arolwg o 31 o fusnesau oedd wedi derbyn y cymorth grant (h.y. y buddiolwyr), sy'n gyfystyr a chyfradd ymateb o 48%
- Arolwg o 39 o fusnesau oedd wedi cyflwyno DoDd ond oedd heb dderbyn cymorth (h.y. oedd ddim yn fuddiolwyr), sy'n chyfystyr a gyfradd ymateb o 33%.
- Adolygiad o'r wybodaeth rheoli sydd wedi cael ei choladu gan Llywodraeth Cymru.

Roedd yna pedwar cyfyngiad nodedig ar y gwerthusiad. Yn gyntaf, roedd cyfran fawr o brosiectau (26%) yn dal i fod yn weithredol pan cwblhawyd ein gwaith ymchwil yn Chwefror 2023, ac roedd rhai buddiolwyr yn dal i fod yn y broses o brynu'r offer, ac felly yn cyfyngu ein gallu i sefydlu'r effeithiau llawn, terfynol (er bod hyn wedi'i liniaru drwy archwilio'r potensial ar gyfer y dyfodol). Yn ail, roedd yna diffyg cadernid ystadegol yn y sampl gan roedd y buddiolwyr a'r busnesau oedd ddim yn fuddiolwyr profi'n anodd eu cyrraedd, er rydym yn nodi bod

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-cynllun-buddsoddi-mewn-busnesau-pren-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

meintiau'r sampl yn caniatáu canfyddiadau addas, dangosol. Yn drydydd, roedd yna ddiffyg cadernid yn yr asesiad o'r effaith economaidd oherwydd diffyg gwaith mapio cadwyn gyflenwi fanwl (a fyddai wedi cymryd mwy o adnodd nag oedd ar gael), er roedd y data yn ddigonol i roi arwydd cryf o effaith y cynllun. Yn bedwerydd, ac yn gysylltiedig â'r ddau bwynt olaf, dim ond 65% o fuddiolwyr oedd yn hapus i rannu data trosiant, gan gyfyngu ymhellach ar y dadansoddiad o'r effaith economaidd.

# Mynd i'r afael â chwestiynau allweddol y gwerthusiad

## Effeithiolrwydd y broses DoDd, ymgeisio a gwerthuso

Cafwyd ymateb cymysg gan fuddiolwyr mewn perthynas â'u boddhad gyda'r broses ymgeisio, gyda 42% yn datgan anfodlonrwydd ac yr un gyfran yn datgan eu bod yn fodlon. Roedd yr heriau a grybwyllwyd amlaf gan fuddiolwyr yn ymwneud â natur feichus y broses a'i bod yn cymryd gormod o amser, tra fe wnaeth llawer siarad am gymhlethdod cyffredinol y broses. Penderfynodd mwy na thraean o'r buddiolwyr hurio ymgynghorydd i'w helpu i ddatblygu'r cais iddynt, sy'n codi cwestiynau am natur cydraddoldeb y cynllun ac effeithiolrwydd y broses ddethol (h.y. mai nid y prosiectau gorau oedd yn cael eu hariannu o anghenraid, ond hefyd yn rhannol ynglŷn â pha fusnesau oedd yn digon mawr i sicrhau cymorth gan y sector preifat i ddatblygu eu bidiau).

Cytunodd aelodau'r tîm cyflawni fod problemau wedi codi gyda'r broses, a soniwyd am oedi hir a heriau penodol gyda'r cais llawn (ail gam y broses) lle'r oedd y gyfradd o ymgeiswyr oedd wedi mynd ymlaen o'r cam DoDd i'r cam ymgeisio llawn yn annigonol. Roedd yr oedi hyn wedi ei waethygu gan ddigwyddiadau allanol fel Brexit, y pandemig COVID-19, a'r rhyfel yn Wcráin (a'r effeithiau cysylltiedig ar chwyddiant). I wneud pethau'n waeth, doedd dim

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-cynllun-buddsoddi-mewn-busnesau-pren-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

hyblygrwydd o fewn y cynllun i gynyddu lefel y grant er mwyn cyfrif am gostau cynyddol yr offer, a oedd yn golygu mai'r buddiolwyr oedd yn gorfod delio gyda'r cynnydd yn y costau oedd yn gysylltiedig a chwyddiant. Roedd yna dystiolaeth o ddiffyg cysylltiad rhwng y ddau gam ymgeisio, gyda dau dîm gwahanol yn gweithio gyda'r ddwy broses, ac roedd hyn yn ei gwneud yn anoddach sicrhau taith esmwyth trwy'r broses ymgeisio.

Roedd y tîm cyflawni'n credu bod y broses gymeradwyo'n effeithiol, a thynnwyd sylw at y ffaith bod ganddynt gymysgedd priodol o bersonél yn asesu'r ceisiadau ac wedi llwyddo i gefnogi grŵp da ac addas o fuddiolwyr. Yr unig amheuaeth oedd gan y tîm cyflawni, fodd bynnag, oedd bod y meini prawf sgorio'n ffafrio ymgeiswyr mwy (o ran maint y busnes) oherwydd yr elfen gwerth am arian a oedd yn ffafrio ymgeiswyr ag ardaloedd mwy o goetir. Gwnaethpwyd addasiad yn y ffenestr ymgeisio derfynol i fynd i'r afael â'r mater hwn.

## Effeithiolrwydd yr ymgysylltiad â buddiolwyr ac ymgeiswyr posibl

Cafodd y cynllun ei hyrwyddo drwy ymgyrch farchnata gymhedrol oedd yn defnyddio sianelau diwydiannol yn bennaf. Roedd y tîm yn teimlo bod hyn yn briodol, o ystyried natur fach a chlos y sector. Wedi dweud hynny, roedd yr ymgeiswyr yn teimlo ar y cyfan nad oedd lefel arbennig o uchel o ymwybyddiaeth am y cynllun o fewn y sector.

Ymddengys mai cymorth hwyluso cyfyngedig rhoddwyd drwy'r broses ymgeisio a thu hwnt, gyda Llywodraeth Cymru dim ond yn gallu cynghori ar bolisi a rheolau'r cynllun – ni oedd hawl ganddynt gynghori ar brosiectau'r busnesau. Lle derbyniwyd cymorth, roedd yr ymateb yn gymysg iawn o ran ei defnyddioldeb. Tybier bod hynny, yn rhannol, oherwydd ddiffyg adnodd o fewn Taliadau Gwledig Cymru (a oedd yn gyfrifol am ddarparu'r cymorth) i ymateb i ymholiadau yn brydlon ac mewn person. Byddai'r mwyafrif llethol o ymgeiswyr wedi gwerthfawrogi derbyn cymorth arall i'w helpu i lywio drwy'r broses ymgeisio.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-cynllun-buddsoddi-mewn-busnesau-pren-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Y tu hwnt i'r broses ymgeisio, ychydig iawn o fuddiolwyr a dderbyniodd unrhyw gymorth parhaus. Ar y cyfan, roedd y buddiolwyr yn fodlon gyda'r prosesau hawlio a monitro, ond mynegwyd anfodlonrwydd gan leiafrif gweddol fawr (23%) gyda buddiolwyr yn sôn amdan yr oedi a natur fiwrocratig y broses. Roedd diffyg hyblygrwydd, yn bennaf oherwydd rheoliadau'r RhDG, gyda buddiolwyr yn cael eu cosbi'n aml am ffactorau oedd y tu allan i'w rheolaeth hwy a rheolaeth y tîm cyflawni. Cydnabu'r tîm cyflawni bod y diffyg hyblygrwydd ac adnoddau wedi bod yn broblem drwy gydol y cynllun a bod "pob cam o'r broses wedi cymryd gormod o amser".

## Effeithiolrwydd dyluniad y cynllun

Cafodd y penderfyniadau a wnaed mewn perthynas â dyluniad y cynllun eu derbyn yn dda ar y cyfan gan yr ymgeiswyr, gyda llawer yn cefnogi'r penderfyniad a wnaed ynghylch hyblygrwydd a phriodoldeb maint y grant, y gyfradd ymyrraeth, a'r costau a'r gweithgareddau oedd yn gymwys. Ar bwynt mwy strategol, fodd bynnag, efallai roedd angen mwy o eglurder ynglŷn â'r hyn roedd y cynllun yn ceisio ei gyflawni a'r mathau o fuddsoddiadau y dylai eu gwneud. Er enghraifft, roedd yna ddisgwyliad yn wreiddiol y byddai gan y prosiectau ffocws amgylcheddol yn bennaf), ond mae'n ymddangos bod gan y rhan fwyaf o'r gweithgarwch fwy o ffocws economaidd. Yn ogystal, nid oedd y ffordd i'r cynllun cael ei ddylunio yn gweddu cyflawni rhai o'r amcanion eraill megis cefnogi busnesau llai (e.e. meithrinfeydd) a chadw mwy o'r gwariant cadwyn gyflenwi yng Nghymru (er bod newid wedi'i wneud yn y ffenestr ymgeisio derfynol i fynd i'r afael â hyn).

## Cyflawniad yn erbyn targedau

Dim ond 71% o'r gyllideb grant o £9m a hawliwyd yn llwyddiannus gan fuddiolwyr. Er roedd yna ddigonedd o alw am gymorth, arweiniodd cyfuniad o broblemau mewnol ac allanol at leihad yn y swm a hawliwyd. Efallai mai'r prif

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-cynllun-buddsoddi-mewn-busnesau-pren-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gyfyngiad oedd y ffaith bod y cyllidebau wedi eu dyrannu yn flynyddol, a bod unrhyw danwariant yn dychwelyd i'r 'pot' RhDG ac yn cael ei ddefnyddio ar gyfer blaenoriaethau eraill. Felly, doedden nhw ddim yn gallu symud diffyg mewn cyllid o un ffenestr i'r llall.

O ran y dangosyddion perfformiad allweddol (DPA), fe wnaeth y cynllun cefnogi llai o weithredoedd nag y rhagwelwyd (74% o'r targed), er ei fod wedi perfformio'n dda yn erbyn y targedau DPA eraill. Aeth CBBP y tu hwnt i'r targed ar gyfer creu swyddi a gwneud yn llawer gwell na'r targed ar gyfer diogelu swyddi. Yn ogystal, fe wnaeth wedi cyflawni'n llawer gwell na'r targed am yr arwynebedd o goetir a gefnogir, a oedd fwy na 45 gwaith y targed. Nodwn, fodd bynnag, bod y ffigurau targed yn ymddangos yn gymedrol iawn ac, felly, yn rhoi darlun cyfyng o ran gwerth y cynllun. O ganlyniad, rydym yn ategu'r adolygiad hwn gydag asesiad manylach o'r effaith a'r gwerth am arian.

## Effaith

Roedd y mwyafrif o'r buddiolwyr yn credu eu bod wedi cyflawni'r hyn roedden nhw wedi bwriadu ei gyflawni ac fe ddaeth arolygwyr Llywodraeth Cymru i'r un casgliad yn eu hadroddiadau in-situ. Soniodd y buddiolwyr am amrywiaeth eang o ganlyniadau gyda'r prif themâu yn cynnwys 'mwy o gynhyrchiad' a 'chyrchu tiroedd anoddach', a 'chyrchu marchnadoedd newydd'. Wedi ei gysylltu â hyn, soniodd 30% am yr effaith ar eu gwerthiannau, tra bod eraill wedi dweud eu bod yn gallu gweithredu prosesau mwy effeithlon gyda'r mwyafrif yn dweud fod y prosiect wedi arwain at ostyngiad yn eu costau. Mae'r dystiolaeth yn sicr yn awgrymu bod y cynllun wedi cael effaith mewn perthynas â gwella galluoedd y sector pren yng Nghymru.

Amcangyfrifodd ein hasesiad effaith economaidd bod CBBP wedi creu neu ddiogelu 71 o swyddi i gyd, sy'n gyfatebol â thua £110k mewn buddsoddiad i bob swydd a grëwyd neu a ddiogelwyd, er ein bod yn nodi bod yr amcangyfrif hwn wedi'i gyfyngu gan faint bach y sampl a chyfyngiadau eraill o fewn y

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-cynllun-buddsoddi-mewn-busnesau-pren-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

fethodoleg. Dywedodd y rhan fwyaf o fuddiolwyr hefyd fod eu prosiect wedi arwain at welliant yn ansawdd y gyflogaeth y maent yn ei darparu, gan gynnwys 77% yn nodi gwell diogelwch mewn swydd (e.e. osgoi oriau sero, contractau dros dro, oriau gweithredu), tra bo 55% wedi dweud ei fod wedi arwain at welliant yng nghyfansoddiad sgiliau eu gweithlu.

Mae’r dadansoddiad o ddata trosiant yn awgrymu ymhellach bod y CBBP wedi cynhyrchu twf i fuddiolwyr yn ogystal ag amcangyfrif o £2.5m mewn Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) ychwanegol net. Y tu hwnt i hynny, mae potensial cryf ar gyfer enillion economaidd pellach yn y dyfodol, yn enwedig o ystyried bod 30% o brosiectau yn dal i fod yn weithredol ar adeg ein harolwg tra bod llawer o fuddiolwyr yn teimlo y byddai'n cymryd mwy o amser i weld yr effaith economaidd. Ar sail y rhagfynegiadau am drosiant a’r priodoliad a ddarparwyd gan fuddiolwyr, mae ein brasamcan yn awgrymu bod gan CBBP y potensial i gynhyrchu £5.8m mewn effeithiau GVA dros y flwyddyn nesaf (ar adeg yr adroddiad hon). Byddem yn rhybuddio, fodd bynnag, bod y brasamcanion hyn yn fwy sbeciannol ac yn fwy agored i dueddiad optimistiaeth.

Er roedd y prif gymhelliant tu ôl i’r prosiectau yn ymwneud fwy â’r ochr economaidd, ac mae ymatebion buddiolwyr yn awgrymu mai dyma oedd y brif effaith hefyd, fe wnaethom hefyd canfod tystiolaeth o ganlyniadau amgylcheddol. Roedd y mwyafrif o’r buddiolwyr wedi datblygu prosesau llai dwys a niweidiol i’r amgylchedd, roedd y mwyafrif wedi gallu gostwng y boblogaeth o goed peryglus neu wella amodau coetiroedd, tra bo tua hanner wedi dod â choetiroedd newydd dan reolaeth gynaliadwy (o goetiroedd fferm yn bennaf).

Ochr yn ochr â’r gwerth a gynhyrchwyd gan gynnydd mewn trosiant a chyflogaeth, mae hefyd werth economaidd sy’n gysylltiedig â’r effeithiau amgylcheddol a gynhyrchir gan y cynllun. Er enghraifft, mae dod ag ardaloedd newydd o goetir o dan reolaeth gynaliadwy yn allweddol o ran cynyddu gwerth y sector yng Nghymru, gan olygu gall yr economi elwa o ardaloedd o goetir oedd wedi eu gadael yn segur gynt. Yn ogystal, mae diogelu coedwigoedd a’u

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-cynllun-buddsoddi-mewn-busnesau-pren-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

bioamrywiaeth gysylltiedig ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol ynghyd a’r gwerth o liniaru’r newid hinsawdd yn arwain at effaith economaidd cadarnhaol. Yn unol â hynny, er nad yw'n fesuradwy, mae'r effaith economaidd a gynhyrchir yn debygol o fod yn uwch na'r enillion uniongyrchol ar gyfer buddiolwyr.

Ymddengys bod y cynllun wedi cynrychioli ychwanegedd cryf. Gwelsom na fyddai unrhyw rai o’r buddiolwyr wedi gallu gwneud yr un buddsoddiad ar yr un pryd heb y cymorth, ac na fyddai oddeutu chwarter wedi gallu gwneud buddsoddiad o gwbl. Soniodd 65% y byddent wedi gwneud buddsoddiad gwahanol neu lai, a dywedodd 42% y byddent wedi gorfod aros yn hirach i wneud y buddsoddiad. Soniodd buddiolwyr ymhellach na fyddai 75% o’r buddsoddiad a wnaed wedi digwydd heb y cymorth gan CBBP. Ar y sail hon, rydym yn amcangyfrif bod y cynllun wedi trosoli £6.4m o fuddsoddiad gan fusnesau yn eu galluoedd na fyddai wedi digwydd heb y cymorth.

## Aliniad strategol

Bu aliniad strategol cryf rhwng CBBP ac amcanion polisi ehangach mewn rhai ffyrdd. Er enghraifft, roedd yna sicr aliniad cryf gyda sawl un o dargedau strategaeth Coetiroedd i Gymru megis yr amcan ynghylch gwell rheolaeth gynaliadwy o goetiroedd. Ar yr un pryd, efallai nad oedd y weledigaeth strategol yn ddigon eglur fel yr ydym wedi sôn eisoes. Er enghraifft, nid oedd y buddsoddiad wedi cael ei dargedu mewn ffordd effeithiol o ran cwrdda amcan Llywodraeth Cymru i greu coetiroedd (un o’r prif amcanion) oherwydd roedd y meini prawf sgorio’n ei gwneud hi’n anodd i feithrinfeydd cyrchu’r cyllid. Yn ogystal, er mai rhan o uchelgais y cynllun oedd cadw mwy o werth y gadwyn gyflenwi yng Nghymru drwy gymryd cyfran o’r farchnad gan gyflenwyr y tu allan i Gymru, ychydig iawn o dystiolaeth sydd yn yr arolwg i ddangos bod hyn yn digwydd. Roedd gwerthiannau buddiolwyr bron yn gyfan gwbl i gwsmeriaid o Gymru ac ni chafodd y cynllun effaith o gwbl ar hynny.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-cynllun-buddsoddi-mewn-busnesau-pren-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

### Gwerth am arian

Mae cynhyrchu gwerth am arian cryf yn cysylltu'n ôl at ddarparu'r weledigaeth ac effeithiau o fewn y ddamcaniaeth newid cafodd ei ddatblygu ar gyfer y cynllun. Roedd rhain yn cynnwys uchelgeisiau i: roi cyfleoedd i fusnesau pren dyfu; gwella amodau coetiroedd yng Nghymru; dod â choetiroedd anhygyrch o dan reolaeth; cynyddu cynhyrchiad pren yng Nghymru; cadw mwy o werth y gadwyn gyflenwi yng Nghymru; darparu adenillion economaidd ar fuddsoddiad positif; a darparu buddion amgylcheddol. Mae'r cynllun wedi cyflawni'n llwyddiannus yn erbyn y rhan fwyaf o'r amcanion hyn, ac eithrio darparu adenillion economaidd ar fuddsoddiad positif a chadw mwy o'r cyflenwad gwerth cadwyn yng Nghymru.

Pe baem ni'n mynd i feirniadu'r gwerth am arian yn llwyr ar sail yr adenillion economaidd sy'n gysylltiedig â throsiant a gynhyrchwyd hyd yn hyn, byddai rhywfaint o amheuaeth a ellid disgrifio'r cynllun fel un llwyddiannus. Ond, ochr yn ochr â'r gwerth economaidd oedd wedi ei gynhyrchu'n barod i fuddiolwyr, mae tystiolaeth yr arolwg yn awgrymu y bydd y cynllun yn parhau i gynhyrchu adenillion economaidd dros y flwyddyn nesaf, a allai o bosib fod yn uwch na'r hyn a wariwyd drwy gyllid grant. Yn ogystal, mae'r cynllun wedi trosoli £6.4m mewn buddsoddiad gan fusnesau ac, heb os, wedi datblygu'r gallu o fewn y sector. Mae tystiolaeth gref hefyd ei fod wedi creu effeithiau amgylcheddol pwysig, sydd â gwerth economaidd sylweddol yn gysylltiedig â nhw. O'u rhoi at ei gilydd, mae'r dystiolaeth yn dangos bod y cynllun wedi cynhyrchu gwerth am arian.

## Casgliadau ac argymhellion

Mae'r gwerthusiad hwn wedi dangos, er bod nifer o heriau a phroblemau wedi codi wrth gyflawni'r CBBP, mae wedi gallu cyflawni ei gylch gwaith i raddau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-cynllun-buddsoddi-mewn-busnesau-pren-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

mawr. Yn gyffredinol, gall y cynllun bwyntio tuag at nifer o gyflawniadau, yn cynnwys y cynnydd mewn rheolaeth gynaliadwy ar goetiroedd yng Nghymru, twf o fewn y busnesau a gefnogir, ac effeithiau amgylcheddol. Roedd y rhanddeiliaid yn teimlo bod angen am y math hwn o gymorth wrth symud ymlaen, er y dylai ymyraethau yn y dyfodol gael hunaniaeth a chylch gwaith mwy eglur.

Ar sail y canfyddiadau hyn, gwneir yr argymhellion a ganlyn.

## Argymhelliad 1

Dylai unrhyw ymyrraeth yn y dyfodol sefydlu rôl a chylch gwaith clir o’r cychwyn un sy’n alinio â’r amcanion polisi ar gyfer y sector.

## Argymhelliad 2

Dylai cynlluniau’r dyfodol gynnwys mecanweithiau i gymell busnesau’n well i archwilio marchnadoedd y tu allan i Gymru er mwyn sicrhau’r effeithiau gwerth ychwanegol gros gorau os mai dyna’r bwriad.

## Argymhelliad 3

Dylid cael dealltwriaeth fwy eglur o’r gynulleidfa darged ar gyfer ymyriadau’r dyfodol (e.e. busnesau mawr/bach), gan gynllunio’r prosesau i gydfynd â hynny.

## Argymhelliad 4

Dylid sicrhau gwell adnoddau ar gyfer cynlluniau’r dyfodol er mwyn osgoi oedi a tharfu, naill ai drwy sefydlu tîm cyflawni mwy neu drwy ostwng maint y rhaglen.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-cynllun-buddsoddi-mewn-busnesau-pren-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Argymhelliad 5

Yn gysylltiedig â'r uchod, dylai cynlluniau'r dyfodol naill ai ddarparu mwy o gymorth i helpu ymgeiswyr drwy'r broses (e.e. unigolyn wedi'i enwi gyda llinell uniongyrchol) neu fod yn llai amharod i gymryd risgiau yn fewnol er mwyn symleiddio'r broses fel bod modd prosesu ceisiadau'n gyflymach.

## Argymhelliad 6

Gellid ystyried system haenog hefyd i wneud y broses yn fwy cymesur â'r ceisiadau am grantiau llai.

## Argymhelliad 7

Dylid cael un corff yn gyfrifol am oruchwylio ceisiadau drwy'r broses gyfan er mwyn sicrhau trosglwyddiad esmwythach.

## Argymhelliad 8

Dylai cynlluniau'r dyfodol gynnwys rhywfaint o hyblygrwydd yn y system i ganiatáu ar gyfer newidiadau chwyddiannol mewn costau lle mae'r amser prosesu'n hir.

# Manylion cyswllt

Awduron: Ioan Teifi, Endaf Griffiths

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-cynllun-buddsoddi-mewn-busnesau-pren-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Safbwyntiau'r ymchwilwyr yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Richard Self
Ebost: **gwerthuso.ymchwil@llyw.cymru**

Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 99/2023
ISBN digidol: 978-1-83504-914-3

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH GSR GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-cynllun-buddsoddi-mewn-busnesau-pren-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.